## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Ymchwiliad i wella iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru

Bydd ymchwiliad y Pwyllgor yn ystyried a yw'r adolygiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed – y 'Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc' – ar y trywydd iawn i gyflawni'r 'newid sylweddol' sydd ei angen i'r gwasanaethau hyn. Bydd ymchwiliad y Pwyllgor yn ystyried:

### CAMHS Arbenigol

- I ba raddau y mae gwasanaethau newydd (a/neu wasanaethau sydd wedi'u haddasu) yn helpu i leihau amseroedd aros o ran CAMHS arbenigol. A yw'r gwelliannau a ddisgwyliwyd gan Lywodraeth Cymru o ran amseroedd aros ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed wedi'u bodloni;
- Beth y mae'r data yn ei ddweud wrthym am yr amrywiadau o ran arfer (mynediad teg) ledled Cymru;
- I ba raddau y mae newidiadau wedi mynd i'r afael â goratgyfeirio plant a phobl ifanc i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed;
- Atgyfeiriadau a mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed gan fyrddau iechyd unigol, gan gynnwys y cyfyngiadau a'r trothwyon a osodir gan y gwasanaethau hyn;
- A yw'r newidiadau wedi helpu i wella gallu CAMHS arbenigol i ymateb y tu allan i oriau ac mewn argyfwng; a yw gofal y tu allan i oriau yn gweithio'n effeithiol, ac yn edrych yn benodol ar anghenion y plant a phobl ifanc hynny sy'n cyrraedd adrannau damweiniau ac achosion brys ysbytai ac yn cael eu hasesu yno;
- A oes digon o gapasiti ar gyfer cleifion mewnol yng Nghymru.

### Cyllid

- Gwariant blynyddol ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed mewn termau arian parod ac fel canran o'r gwariant cyffredinol ar iechyd meddwl, yn ôl Bwrdd Iechyd lleol;
- I ba raddau y mae mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer pobl ifanc wedi gwella; A fu gostyngiad dilynol yn y defnydd o feddyginiaeth ar gyfer pobl ifanc;

- Sut y mae'r cyllid ychwanegol wedi cael ei ddefnyddio i wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol;
- I ba raddau y mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed; er enghraifft, plant sydd mewn gofal, plant a phobl ifanc sydd ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) ac anhwylderau sbectrwm awtistig, a'r rhai sydd eisoes yn y system cyfiawnder ieuenctid neu'n wynebu risg o fynd i mewn i'r system, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cadw o dan adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983;
- Effeithiolrwydd y trefniadau cynllunio a chomisiynu presennol i fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc sy'n datblygu arwyddion cynnar o salwch meddwl difrifol, fel seicosis.

**Pontio i Wasanaethau Oedolion**

- Pa mor dda y mae'r broses o bontio i wasanaethau iechyd meddwl oedolion yn cael ei chynllunio a'i rheoli.

**Cysylltiadau ag Addysg (deallusrwydd emosiynol a dulliau ymdopi iach);**

- Y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn fwy gwydn ac yn gallu mynd i'r afael â lles meddyliol gwael pan fo'n digwydd, gan gynnwys:
    - datblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles fel rhan o'r cwricwlwm newydd;
    - mynediad plant at nyrsys ysgol a'r rôl y gall nyrsys ysgol ei chwarae wrth ddatblygu gwytnwch a chefnogi lles emosiynol;
    - i ba raddau y mae gwasanaethau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd;
    - faint o wasanaethau cymorth lefel is ac ymyrraeth gynnar a ddarperir ar hyn o bryd a faint sy'n eu defnyddio; er enghraifft, gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth sy'n dod i law fel rhan o'r ymchwiliad hwn yng nghyd-destun y gwaith o weithredu *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* a *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.*